HUGHES, HUGH DERFEL (1816 - 1890);

Enw: Hugh Derfel Hughes
Dyddiad geni: 1816
Dyddiad marw: 1890
Plentyn: Jane Williams (née Hughes)
Plentyn: Hugh Brython Hughes
Rhiant: Hugh Hughes
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ifor Williams

Ganwyd 7 Mawrth 1816 ym Melin y Cletwr, Llandderfel, Meirionnydd; ei dad Hugh Hughes oedd y melinydd yno hyd 1822, pan symudodd i Landderfel (bu farw yn 1829). Gorfu i'r bachgen wasnaethu ar ffermydd yma ac acw am rai blynyddoedd ond o'r diwedd cafodd le fel pwyswr yn chwarel y Penrhyn, Bethesda, Arfon. Priododd yn 1846 ac ymsefydlu yng nghartref ei wraig ym Mhendinas, Tregarth, lle bu byw hyd ei farwolaeth, 21 Mai 1890; claddwyd ef yn y Gelli. Dechreuodd farddoni 'n gynnar, a hoffai astudio hanes Cymru, hynafiaethau, daeareg, a llysieueg, er na chafodd addysg yn yr un ohonynt. Crwydrodd drwy Gymru i werthu ei lyfr cyntaf, *Blodeu'r Gân*, 1844, ac ysgrifennodd yn 1845 ddisgrifiad o 'ddull wynebau a chyfansoddiadau' y Cymry enwog a welodd ar ei deithiau (gweler *Y Tyddynnwr*, i, 296-318). Cyhoeddodd ail gasgliad o farddoniaeth, *Y Gweithiwr Caniadgar*, yn 1849, gan gynnwys caneuon ei gyfeillion yn ôl arfer yr oes honno. Awdur un garol yw ei frawd, Thomas Hughes, Pendref, Llanfyllin.

Enillodd yng nghyfarfod Henyddol Llandegai ar ' Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid,' a chyhoeddodd ei draethawd yn 1866. Ymhlith ei bapurau, gwelwyd rhan o'i awdl ar ' Chwarel y Cae '; am honno y cafodd gadair eisteddfod Bethesda.

Ei gân orau yw'r ' Cyfamod Disigl,' a gyfansoddodd wrth groesi'r Berwyn â'i bladur ar ei ysgwydd, o'r cynhaeaf yn Sir Amwythig. Aeth y pennill olaf,' ' Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion,' yn rhan o gyfoeth emynau'r genedl. Ei gywydd gorau yw ' Y Bore Olaf.' Yn ei gofiant i'w dad, dyry hefyd gefndir ei fywyd ei hun; gweler *Y Traethodydd*, 1946, 174-183; 1947, 177-83.

Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Huw Derfel

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535575

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n

derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Williams, I., (1953). HUGHES, HUGH DERFEL (1816 - 1890);. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-DER-1816

Copïo'r cliptwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government